**Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

**Dyddiad:** **24 Tachwedd 2010**

**Amser:** **9.00 to 9:40 am**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth – Tai ac Adfywio**
**Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2011-12**

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cynnig sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynigion ar gyfer cyllidebau rhaglenni'r Gyfarwyddiaeth Dai ar gyfer y dyfodol fel y'u disgrifir yn y gyllideb ddrafft a osodwyd ar 17 Tachwedd 2010. Mae'n disgrifio'r meysydd hynny sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. Yn unol â hynny, rwy'n esbonio'r gyllideb Tai ac Adfywio.

## Trosolwg o'r Gyllideb

Mae tabl un yn dangos yr effaith ar gyllideb sylfaen y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer Tai ac Adfywio.

*Tabl un: crynodeb ariannol - tai ac adfywio*

| | 2010-11 £000oedd | 2011-12 £000oedd | Newid £000oedd | Newid % |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | 342,328 | 304,735 | 37,593 | 11.0 |
| Refeniw | 171,925 | 169,254 | 2,671 | 1.6 |
| Cyfanswm | 514,253 | 473,989 | 40,264 | 7.8 |

Nid yw'r uchod yn cynnwys y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth y Cynulliad.

**Newidiadau i'r Gyllideb**

Mae'r holl ostyngiadau yn y gyllideb yn deillio o'r setliad llai a roddwyd i Lywodraeth y Cynulliad. Dywedais wrth y pwyllgor hwn llynedd y byddai £40 miliwn yn cael ei dorri o gyllideb cyfalaf tai 2010-11 am i'r swm hwnnw gael ei ddefnyddio'r flwyddyn flaenorol fel sbardun ariannol yn ystod y dirwasgiad. Mae'n dda gen i ddweud i hyn gael ei gydnabod pan ddyrannwyd y gyllideb ac i'r £40 miliwn gael ei adfer i'r gyllideb tai. Heb gynnwys y £40 miliwn serch hynny, mae'r gyllideb cyfalaf, o gymharu tebyg â'i debyg, wedi gostwng dros 20%.

O 1 Ebrill 2010, cafodd y portffolio Adfywio ei drosglwyddo i Brif Grŵp Gwariant (MEG) yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Roedd y trosglwyddiad hwn yn rhan o broses Cyllideb Atodol 2010-11, a osodwyd ym mis Gorffennaf 2010.

Cafodd y cyllidebau Tai ac Adfywio eu cyhoeddi fel rhan o MEG ehangach yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Mae tablau cryno'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd i'w gweld yn atodiad un y papur hwn.

**Y prif bwyntiau sy'n codi o'r gyllideb tair blynedd**

O fewn Tai ac Adfywio, rydym wedi blaenoriaethu'r gyllideb yn unol â'r blaenoriaethau strategol yn Cymru'n Un. Rydym hefyd wedi gwneud popeth a fedrwn i ddiogelu pobl mwyaf bregus ac anghenus Cymru. Wrth baratoi'r gyllideb Tai ac Adfywio, rydym wedi ystyried hefyd ei heffeithiau ar faterion cydraddoldeb. Yn ystod o broses o bennu'r gyllideb tair blynedd, ystyriwyd yn fanwl y blaenoriaethau cymharol ar draws y meysydd rwy'n gyfrifol amdanynt. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd wrth inni weithio ar bennu'r gyllideb:

- Rwy'n amddiffyn £108 miliwn cyllideb cyfalaf y Lwfans Atgyweiriadau Mawr/Taliadau Gwaddoli. Fe'i defnyddir i fuddsoddi yn stoc dai blaenorol a phresennol awdurdodau lleol i'w helpu i'w codi at Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn ogystal â gwella amodau byw pobl, mae hyn yn adfywio'r economi a'r gymuned leol.

- Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn hanfodol i helpu pobl fwyaf bregus ein cymdeithas. Mae'n dda gen i ddweud, fel rhan o'r dyraniad i'r MEG, ein bod wedi cael £2 miliwn yn ychwanegol yn 2011-12 i helpu i amddiffyn y gyllideb bwysig hon. Rwy wedi amddiffyn y gyllideb Cefnogi Pobl gan ddefnyddio cyllideb 2011-12 fel llinell sylfaen trwy dargedu adnoddau refeniw tai y blynyddoedd sy'n dilyn. Trwy fuddsoddi yn y maes hwn, gallwn arbed adnoddau yn y GIG, gofal cymdeithasol a diogelwch yn y gymuned.

- Rwyf hefyd yn amddiffyn cyllideb gyfalaf y Rhaglen Addasiadau Brys. Mae'r rhaglen hon yn helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae hefyd yn arbed arian i'r GIG a gofal cymdeithasol.

**Cyllidebau yn ôl Camau Gweithredu**

Fe welwch yn atodiad dau ddadansoddiad manwl o'r gyllideb, fesul llinell wariant. Mae'r rhan hon o'r papur yn rhoi esboniad bras o brif linellau'r gyllideb.

*Cefnogi Pobl*

Rwy eisoes wedi esbonio fy ymrwymiad i'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Rydym yn amddiffyn y maes pwysig hwn yn fwy nag unrhyw linell refeniw arall o fewn y gyllideb tai. Mae'n cyfrif am fwy na 90% o gyfanswm y gyllideb refeniw tai. Byddai'n anodd iawn ei hamddiffyn yn fwy na hynny oherwydd yr effaith anghymarus ar linellau eraill y gyllideb. Rhwng y ddwy flynedd, rydym wedi cyfyngu'r gostyngiad i ryw 1.5%.

*Grant Tai Cymdeithasol*

Mae Rhaglen y Grant Tai Cymdeithasol yn cynnwys prif raglen y cyllidebau ar gyfer tai fforddiadwy, gofal ychwanegol a chamddefnyddio sylweddau. Ar gyfer y brif raglen yng Nghymru, rydym yn anelu at adeiladu 6,500 o gartrefi fforddiadwy newydd cyn diwedd y tymor hwn. Mae pethau'n mynd rhagddynt yn dda o ran y targed hwnnw. Er y £40 miliwn sydd wedi'i adfer, ac ailddyrannu rhai cyllidebau, mae'r Rhaglen Tai Cymdeithasol yn colli £31 miliwn o arian parod, gostyngiad o 31%. Mae hynny'n golygu ein bod yn bwriadu codi llai o unedau.

Er hynny, mae'n rhaid inni gofio'r twf a welwyd yn y rhaglen hon yn y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'r £62 miliwn o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol sydd wedi cael effaith sylweddol ar wireddu ymrwymiad Cymru'n Un ac ar yr economi leol. Yn ogystal, rydym yn gobeithio y daw Ymddiriedolaeth Fuddsoddi Tai Cymru yr ydym yn ei datblygu, i fod a gwireddu'r nod o annog y farchnad i fuddsoddi cyfalaf mewn tai cymdeithasol, gan alluogi'r Grant Cymdeithasol Tai i chwyddo arian ac esgor ar fwy o ganlyniadau arwyddocaol.

*Lwfans Atgyweiriadau Mawr /Taliadau Gwaddoli*

Rwy wedi esbonio uchod fy mwriad i amddiffyn £108 miliwn y gyllideb gyfalaf hon ar ei lefel yn 2010-11.

*Ardaloedd Adnewyddu*

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi adfywiad tai, adfywiad ehangach yn y gymuned a'r economi a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'n cynnwys camau gweithredu i wneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon ac i ddefnyddio tai segur. Bydd y gyllideb gyfalaf hon yn gostwng o £24.1 miliwn i £16.6 miliwn dros y ddwy flynedd.

*Mynd i'r Afael â Digartrefedd*

Yn 2010-11, buddsoddwyd arian ychwanegol yn y maes hwn, felly hyd yn oed gyda'r gostyngiadau, mae lefel y gwariant yn y maes yn dal yn uwch nag yn 2009-10. Rydym wedi cyflwyno cyfres o raglenni newydd i gadw pobl yn eu cartrefi ac osgoi digartrefedd.

*Asiantaethau Gwella Cartrefi*
Mae'r maes hwn yn ymwneud yn bennaf â rhedeg Gofal a Thrwsio. Cafodd y gyllideb hon ei chynyddu £0.4 miliwn yn 2010-11, felly er gwaetha lleihau'r gyllideb, mae hi'n dal i fod yn uwch nag yn 2009-10. Mae'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio yn helpu i gadw'r henoed yn gysurus a diogel yn eu cartrefi, ac osgoi gorfod eu hanfon at ofal y GIG neu ofal preswyl. Am hynny, rwy'n amddiffyn y Rhaglen Addasiadau Brys y mae'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio yn ei rheoli.

*Datblygu Polisi, Deddfwriaeth a Rheoliadau Tai*
Mae'r gyllideb refeniw gymharol fach hon yn cael ei chwtogi yn unol â meysydd eraill. Mae'n cefnogi meysydd fel ein rhaglen reoleiddio yn ogystal â'r broses o drosglwyddo stoc i awdurdodau lleol.

*Adfywio*
Yn unol â'r Fframwaith newydd ar gyfer Ardaloedd Adfywio, rydym yn ceisio lleihau'r ymrwymiadau rydym wedi'u hetifeddu er mwyn gallu buddsoddi yn ein saith Ardal Adfywio. Er bod mwy nag 20% o ostyngiad yn ein cyllideb gyfalaf gyffredinol, rydym wedi gallu amddiffyn ein gwariant i ryw raddau yn ein Hardaloedd Adfywio. Ar draws yr Ardaloedd Adfywio, 10% yw'r gostyngiad yng nghyfanswm y gyllideb gyfalaf.

Rydym wedi rheoli'r toriadau yn y gyllideb refeniw trwy weithio gyda phartneriaid hen brosiectau i gael hyd i ffyrdd o weithio'n fwy cost-effeithiol.

*Arian Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer Llywodraeth Leol*
O fewn fy nghyllideb, mae gen i ddwy linell gyllid sy'n ymdrin â chyfalaf cyffredinol i lywodraeth leol. Nid yw'r arian hwn wedi'i neilltuo, felly ar ôl ei ddyrannu i awdurdodau lleol fel rhan o'r setliad ehangach i lywodraeth leol, nid ydym yn gallu eu cyfarwyddo ynghylch sut i'w wario. Mae'r ddwy linell gyllid hon wedi gostwng £27.8 miliwn neu 29% dros y ddwy flynedd. Serch hynny, mae cyfran arwyddocaol o'm cyllidebau cyfalaf yn cael eu talu i awdurdodau lleol.

**Jocelyn Davies AC**
**Dirprwy Weinidog Tai**

**ENVIRONMENT, SUSTAINABILITY AND HOUSING MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)**

**REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit**

| SPA | Actions | 2010-11 Baseline as per Supplementary Budget June 2010 | Budget Reduction & Reallocation Changes | 2011-12 New Plans Draft Budget | 2012-13 Indicative Plans | 2013-14 Indicative Plans |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Climate Change and Sustainability | Develop and deliver overarching policy and programmes on sustainable development and environment | 1,200 | -45 | 1,155 | 1,100 | 1,047 |
| | Develop and implement climate change, emission prevention, and fuel poverty policy, communications, legislation and regulation | 12,230 | 677 | 12,907 | 12,710 | 12,520 |
| | Develop and implement flood and coastal risk, water and sewage policy and legislation | 20,432 | -768 | 19,664 | 21,041 | 27,278 |
| | Facilitate clean and secure energy and industry investment | 1,281 | -41 | 1,240 | 1,140 | 1,080 |
| | Manage and Implement the Waste Strategy and waste procurement | 84,450 | -1,931 | 82,519 | 79,484 | 77,982 |
| | **Total Climate Change and Sustainability** | **119,593** | **-2,108** | **117,485** | **115,475** | **119,908** |
| Environment | Deliver nature conservation and marine policies | 2,454 | 2 | 2,456 | 2,410 | 2,367 |
| | Develop an appropriate evidence base | 953 | -36 | 917 | 874 | 832 |
| | Manage and implement EU Waste legislation, LEQ and contaminated land | 6,360 | -1,582 | 4,778 | 3,200 | 3,200 |
| | Promote protected landscapes and countryside access | 11,550 | -300 | 11,250 | 11,221 | 11,205 |
| | Sponsor and manage delivery bodies | 62,655 | -1,157 | 61,498 | 63,421 | 60,259 |
| | **Total Environment** | **83,972** | **-3,074** | **80,898** | **81,125** | **77,863** |
| Housing | Achieve quality housing | 146 | 128 | 274 | 274 | 274 |
| | Develop Housing policy, legislation and regulation | 2,702 | -85 | 2,617 | 2,549 | 2,561 |
| | Enable people to live independent lives | 146,728 | -2,272 | 144,456 | 141,079 | 141,681 |
| | Increase the supply and choice of housing. | 100 | -3 | 97 | 95 | 95 |
| | Tackle homelessness | 7,541 | -220 | 7,321 | 7,150 | 7,181 |
| | **Total Housing** | **157,217** | **-2,452** | **154,765** | **151,147** | **151,792** |
| Planning | Planning policy development, Planning Inspectorate and regulation | 8,074 | -302 | 7,772 | 7,403 | 7,090 |
| 0 | **Total Planning** | **8,074** | **-302** | **7,772** | **7,403** | **7,090** |
| Regeneration | Implementation of Strategic Regeneration Areas | 2,215 | 2,974 | 5,189 | 6,436 | 6,497 |
| | Manage Delivery of Legacy Regeneration Areas | 10,453 | -2,253 | 8,200 | 7,900 | 7,900 |
| | Prepare Future Strategic Regeneration Areas | 50 | -50 | 0 | 0 | 0 |
| | Community Development | 2,176 | -1,076 | 1,100 | 0 | 0 |
| | **Total Regeneration** | **14,894** | **-405** | **14,489** | **14,336** | **14,397** |
| | | | | | | |
| | **Total Revenue - Environment, Sustainability and Housing** | **383,750** | **-8,341** | **375,409** | **369,486** | **371,050** |

CC(3)-17-10 Paper 1 Annex 2

**HOUSING AND REGENERATION FUNDING ANALYSIS 2010 - 2014**

| COMMITMENT | BEL or Sub-BEL | 2010/11 - for Baseline Purposes | | 2011/12 | | 2012/13 | | 2013/14 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | REVENUE | CAPITAL | REVENUE | CAPITAL | REVENUE | CAPITAL | REVENUE | CAPITAL |
| **Housing** | | | | - | - | - | - | - | - |
| | **Increase the supply and choice of housing.** | **100.00** | **99,900.00** | **97.09** | **69,248.00** | **94.82** | **60,615.00** | **95.22** | **48,134.14** |
| | Social Housing Grants (SHG) | | 82,300.00 | - | 63,335.00 | - | 55,439.00 | - | 44,023.90 |
| | Receipts/Repayments of SHG following Property Sale | | - 400.00 | - | - 275.00 | - | - 241.00 | - | - 191.37 |
| | ExtraCare | | 9,000.00 | - | 6,188.00 | - | 5,417.00 | - | 4,301.62 |
| | Management Promotion & Publicity | | | - | - | - | - | - | - |
| | Not 4 Profit Nursing Homes | | 5,000.00 | - | - | - | - | - | - |
| | SHRG Support | | 4,000.00 | - | - | - | - | - | - |
| | Housing Enablers | 100.00 | | 97.09 | - | 94.82 | - | 95.22 | - |
| | **Achieve quality housing** | **- 40.00** | **211,352.00** | **274.00** | **178,503.00** | **274.00** | **169,714.00** | **274.00** | **157,006.86** |
| | Financial Assistance for First Time Buyers | | 500.00 | - | - | - | - | - | - |
| | Housing Rev Ac Sub Housing el | | | | | | | | |
| | Major Repairs Allowance | | 108,000.00 | - | 108,000.00 | - | 108,000.00 | - | 108,000.00 |
| | Housing General Support | | 78,400.00 | - | 53,906.00 | - | 47,186.00 | - | 37,470.23 |
| | Renewal Areas | | 24,138.00 | - | 16,597.00 | - | 14,528.00 | - | 11,536.63 |
| | Stock Trans/Comm Mutual Support & Capacity Build | 274.00 | | 274.00 | - | 274.00 | - | 274.00 | - |
| | Home Safety/Construction | - 314.00 | 314.00 | - | - | - | - | - | - |
| | **Tackle homelessness** | **7,541.00** | | **7,321.00** | **- #** | **7,150.00** | **-** | **7,181.00** | **-** |
| | Homelessness & Rough Sleeping | 7,541.00 | | 7,321.00 | - | 7,150.00 | - | 7,181.00 | - |
| | **Enable people to live independent lives** | **146,728.00** | **1,641.00** | **144,456.00** | **1,641.00** | **141,079.00** | **1,641.00** | **141,681.00** | **1,641.00** |
| | Home Improvement Agencies | 4,926.00 | | 4,783.00 | - | 4,671.00 | - | 4,691.00 | - |
| | Rapid Response Adapt Prog | 453.00 | 1,641.00 | 440.00 | 1,641.00 | 430.00 | 1,641.00 | 432.00 | 1,641.00 |
| | Supported People Grant | 63,336.00 | | 62,395.00 | - | 60,936.00 | - | 61,196.00 | - |
| | Supporting People Grant-Local Authorities | 76,831.00 | | 75,690.00 | - | 73,921.00 | - | 74,236.00 | - |
| | SHRG Rev Subs Misuse/Young Offenders | 1,182.00 | | 1,148.00 | - | 1,121.00 | - | 1,126.00 | - |
| | **Develop Housing policy, legislation and regulation** | **2,702.00** | **-** | **2,616.72** | **-** | **2,548.99** | **-** | **2,560.59** | **-** |
| | Regulation Inspection Programme | 181.00 | | 176.00 | - | 172.00 | - | 173.00 | - |
| | Management and Advice | 246.00 | | 246.00 | - | 246.00 | - | 246.00 | - |
| | Affordable Homes | 115.00 | | 115.00 | - | 115.00 | - | 115.00 | - |
| | SHMG Black Minority Ethinc (BME) Housing Budget | 404.00 | | 392.00 | - | 383.00 | - | 384.00 | - |
| | Social Housing Management Grant | 1,756.00 | | 1,687.72 | - | 1,632.99 | - | 1,642.59 | - |
| **£ 469,924.00** | | **157,031.00** | **312,893.00** | **154,764.81** | **249,392.00** | **151,146.81** | **231,970.00** | **151,791.81** | **206,782.00** |
| | | | | **0.96** | **0.87** | **0.95** | **0.93** | **0.95** | **0.90** |
| **Regeneration** | | | | **3.5%** | | **4.8%** | 7.0% | **4.8%** | 10.4% |
| | Strategic Regeneration Areas | **2,405.00** | **44,125.00** | **5,189.00** | **39,693.00** | **6,436.00** | **36,500.00** | **6,497.00** | **33,000.00** |
| | Legacy Areas | 10,263.00 | 7,147.00 | 8,200.00 | 3,900.00 | 7,900.00 | 3,400.00 | 7,900.00 | 2,000.00 |
| | Future Implementation | 50.00 | - | - | - | - | - | - | - |
| | Community Development | 2,176.00 | - | 1,100.00 | - | - | - | - | - |
| | Coalfields Regeneration Trust | - | 320.00 | - | 250.00 | - | - | - | - |
| | Regeneration and other Local Services - Gen Cap Funding BEL | | 17,843.00 | - | 11,500.00 | - | 11,577.00 | - | 10,888.00 |
| **£ 84,329.00** | | **14,894.00** | **69,435.00** | **14,489.00** | **55,343.00** | **14,336.00** | **51,477.00** | **14,397.00** | **45,888.00** |
| | | | | | | | | | |
| **Total** | | **171,925.00** | **382,328.00** | **169,253.81** | **304,735.00** | **165,482.81** | **283,447.00** | **166,188.81** | **252,670.00** |